Clare Pillman
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

25 Chwefror 2019

Annwyl Clare

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018-19**

Hoffwn ddiolch i chi a Syr David Henshaw am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 11 Chwefror ac am eich atebion didwyll i gwestiynau'r Pwyllgor.

Yr wyf i a'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eich ymrwymiad i droi Cyfoeth Naturiol Cymru y sefydliad y mae'n dyheu am fod. Rydym hefyd yn croesawu ac yn parchu eich penderfyniad i gomisiynu adolygiad annibynnol llawn o'r materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18. Pwrpas yr adolygiad, yn ôl chi, yw ymchwiliad 'troi pob carreg' i geisio lleddfu'r methiannau yn eich sefydliad a diwygio ar raddfa gyflawn. Rwy'n gwybod eich bod wedi paratoi cynllun gweithredu ac yn edrych ymlaen at weld sut caiff ei weithredu yn ystod 2019.

Nododd Adroddiad y Pwyllgor y bydd y Pwyllgor yn edrych ymhellach ar weithredoedd Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod ei waith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 2018-19 yn hydref 2019.  Bydd hyn er mwyn bodloni ei hun bod cynnydd wedi ei wneud a bod y materion a nodwyd yn yr adroddiad wedi cael sylw llawn. Er mwyn caniatáu digon o amser i Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu'r holl gamau a nodwyd, rwy'n awgrymu ein bod yn cynnal y sesiwn dystiolaeth hon ddydd Llun 9 Rhagfyr 2019. Fel arfer, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn y prynhawn a bydd y Clercod yn cysylltu llawer agosach at yr amser gyda'r amseroedd. Byddwn yn ddiolchgar pe

gallwch ychwanegu'r dyddiadau at eich dyddiadur. Wrth wneud hynny, rwy'n ymwybodol y bydd deiliadaeth Syr David fel Cadeirydd Interim wedi dod i ben, ond byddai croeso mawr iddo ddod gyda chi ac, o bosibl, y Cadeirydd newydd, os bydd y person hwnnw wedi'i benodi erbyn hynny.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**